# Y Diweddaraf: Cynigion y BBC ar gyfer gwasanaethau radio DAB+ newydd a ffrydiau newydd ar BBC Sounds

## Cyhoeddiad y BBC

Ar 7 Chwefror 2024, cyhoeddodd y BBC ei fod yn bwriadu lansio estyniadau DAB+ newydd ar gyfer BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 3, a fydd hefyd ar gael ar BBC Sounds. Cyhoeddodd hefyd ei gynlluniau i ymestyn oriau darlledu BBC Radio 5 Sports Extra.

Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi ei fod yn lansio'r prosesau rheoleiddio angenrheidiol i asesu'r effaith bosibl y gallai ei newidiadau arfaethedig ei chael ar gystadleuaeth. Mae gan Ofcom yn ei dro bwerau helaeth i graffu ar gynlluniau'r BBC.

## Amseru a phroses y BBC

Cyn lansio'r gorsafoedd DAB+ newydd, mae'r BBC wedi esbonio y bydd yn cynnal prawf budd y cyhoedd lle mae'n ystyried a yw gwerth cyhoeddus y newid, ymysg pethau eraill, yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. Fel rhan o'r broses hon, mae'r BBC yn bwriadu lansio ymgynghoriad yn ystod yr wythnosau nesaf. Disgwyl i'r BBC gwblhau ei brawf budd y cyhoedd yn ystod yr haf. Os yw'n hapus bod y prawf wedi ei fodloni, rhaid iddo gyhoeddi ei asesiad a rhoi copi i ni.

Mae'r BBC hefyd yn bwriadu lansio ffrydiau cerddoriaeth ar BBC Sounds ac mae'n gobeithio lansio'r rhain cyn y gorsafoedd DAB+. Bydd y BBC yn ystyried effaith bosibl y ffrydiau newydd ar gystadleuaeth. Os gallent gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, byddent yn cael eu hystyried yn "newid sylweddol", a byddai angen i'r BBC gynnal prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r ffrydiau cerddoriaeth hefyd.

## Amseru a phroses Ofcom

Ar ôl i ni gael prawf budd y cyhoedd y BBC mewn perthynas â'r gorsafoedd DAB+, byddwn yn cynnal asesiad cystadleuaeth. Mae gennym hyd at 6 mis i gwblhau'r asesiad hwn a byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar ein safbwynt dros dro cyn dod i benderfyniad terfynol.

Os bydd y BBC o'r farn nad yw'r ffrydiau cerddoriaeth yn "newid sylweddol" ac nad oes angen i'r newid fod yn destun prawf budd y cyhoedd, galwn adolygu'r penderfyniad hwnnw. Byddem yn disgwyl cyhoeddi diweddariad ar yr adolygiad hwnnw yn y gwanwyn.

Yn ein canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, rydym yn egluro: Arweiniad

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Bydd y BBC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth iddo ystyried yr effaith bosib y gallai'r newidiadau ei chael ar gystadleuaeth. At hynny, os hoffai partïon sydd â diddordeb drafod ein hadolygiadau o gynigion y BBC, gellir cysylltu â ni yn BBCaudioaproposals@ofcom.org.uk.

Byddwn hefyd yn ymgynghori'n ffurfiol fel rhan o'r asesiad cystadleuaeth.